

SUL Y BLODAU

Galwad i Addoli:

Llawenha'n fawr, ferch Seion; bloeddia'n uchel, ferch Jerwsalem.
Wele dy frenin yn dod atat
â buddugoliaeth a gwaredigaeth,
yn ostyngedig ac yn marchogaeth ar asyn.
(Sechareia 9:9)

Darllen Salm 118:1–2,19–29; Mathew 21:1–11

Gweddi:

Diolch i ti, O Arglwydd ein Duw, am ddydd fel heddiw. Dydd o lawen chwedl yw hwn. Heddiw, cofiwn am Iesu'n marchogaeth yn fuddugoliaethus i mewn i Jerwsalem.
Dathlwn yn llawen.
Heddiw, cofiwn am Iesu'n marchogaeth yn ostyngedig.
Dathlwn yn llawen.
Heddiw, cofiwn am Iesu'r brenin yn dod mewn heddwch.
Dathlwn yn llawen.

Ond maddau i ni, O Arglwydd ein Duw,
pan fyddwn yn mygu llawenydd yr Efengyl,
yn dewis y lleddf yn lle'r llon,
yn addoli heb wên yn ein calonnau, nac ar ein hwynebau.

Diolch i ti, O Arglwydd ein Duw, am ddydd fel heddiw.
Dydd i floeddio'n uchel yw hwn.
Y mae gennym Dduw i'w glodfori.
Bloeddiwn yn uchel.
Y mae gennym Waredwr i'w gyhoeddi.
Bloeddiwn yn uchel.
Y mae gennym Newyddion Da i'w rhannu.
Bloeddiwn yn uchel.

Ond maddau i ni, O Arglwydd ein Duw,
pan fyddwn yn dawedog a ninnau â chymaint o gyfoeth i'w rannu.
Os yw ein Hosanna'n ddistaw, maddau i ni.
Os nad ydym yn taenu ein cariad o flaen Iesu, fel y taenodd torf Jerwsalem ganghennau'r coed o'i flaen, maddau i ni.

Byddwn lawen.
Bloeddiwn yn uchel,
er mwyn yr un sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Amen.

Neges 1:

Y Mab yn dod adref
Pan ymwelodd y diwinydd Ffrengig, Henri Nouwen, â St Petersburg yn 1986 aeth i weld llun a oedd

wedi creu argraff fawr arno pan welodd gopi ohono ar boster rhyw ddwy flynedd ynghynt. Gwaith gan yr arlunydd Rembrandt oedd y llun, a'r testun – Y Mab Afradlon. Roedd y llun yn hongian yn yr Hermitage.

Mae'n nodi'r dydd a'r awr: 2.30 y p'nawn, Dydd Sadwrn, 26 Gorffennaf. Roedd cannoedd o ymwelwyr wedi ymgasglu i weld gwaith y meistr, ond yn wahanol iddynt hwy roedd Nouwen wedi cael caniatâd i eistedd ac edrych ar y llun am faint bynnag o amser a fynnai. Bu'n syllu ar y llun am oriau, a rhyfeddu, oherwydd roedd lliwiau'r llun yn newid yn y golau naturiol wrth i'r haul symud heibio'r ffenestr gerllaw, gan amlygu agweddau gwahanol y llun.

Gweld rhywbeth newydd, gwahanol yn y cyfarwydd. Onid yw hynny, pan ddigwydd, yn rhoi gwefr?

A Story of Homecoming yw is-deitl llyfr Nouwen ar y Mab Afradlon a darlun Rembrandt. Hen stori gyfarwydd am y mab yn dychwelyd adref.

Ac felly heddiw hefyd, Sul y Blodau, hanes y Mab yn dychwelyd adref. Er nad fel mab y caiff ei gyfarch yng ngeiriau'r hen broffwyd, ond fel Brenin yn dychwelyd i Seion.

Tybed, beth newydd a welwn ni yn y cyfarwydd?

Gweddï:

Ein Tad nefol, ymunwn â theulu ffydd ym mhob man heddiw i'th addoli.

Ti yw'n Creawdwr a'n Cynhaliwr.

Arglwydd Iesu, ymunwn â theulu ffydd ym mhob man i ganu 'Hosanna i Fab Dafydd'.

Ti yw'n Cyfaill a'n Gwaredwr.

Ysbryd Glân, ymunwn â theulu ffydd ym mhob man i ddeisyf dy bresenoldeb.

Ti yw'n hysgogydd a'n bywyd.

O Dduw, ein Hachubydd, ar Sul y Blodau fel hyn, y lle hwn yn awr yw ein Jerwsalem ni, boed i'n mawl fod megis mentyll yn cael eu gosod o flaen Iesu, a'n gweddïau megis palmwydd yn cael eu chwifio yn ei wŷydd, a'n myfyrdodau megis bloedd y dorf.

O Arglwydd Iesu, ar Sul y Blodau fel hyn
diolchwn am gyffro'r dydd,
a'i lawenydd,
a'r her i ymuno â'th ymdaith fuddugoliaethus.

O Ysbryd Glân, ar Sul y Blodau fel hyn
gwared ni rhag gweiddi 'Hosanna' heddiw a 'Chroeshoelïer ef' yfory;
gwared ni rhag ei gefnogi heddiw a chefnu arno yfory;
gwared ni rhag ei ddilyn heddiw a'i ddamnio yfory.
Offrymwn ein gweddïau yn enw'r Tad sydd yn ein caru, y Mab sydd wedi'n prynu, a'r Ysbryd sydd yn ein bendithio. Amen.

Neges 2:

Yr oedd hi'n fore brafiach nag arfer, yr haul yn gwenu'n gynnes, yr awel yn ffres a'r awyr yn glir. Diwrnod da i fynd i lawr i'r ddinas am dro. Dyw hi ddim yn daith bell i'r ddinas.

Wrth agosáu at y ddinas gwelais dorf o bobl. Roedd hi'n amlwg fod rhywbeth wedi'u cynhyrfu. Fe gyrhaeddais ymyl y dorf a gallwn weld dyn ar gefn asyn yn eu canol. Roedd y bobl yn gweiddi'n uchel, 'Hosanna i Fab Dafydd! Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf!'

Deallais yn syth mai cyfarch y dyn ar gefn yr asyn oedden nhw, ac roedd y geiriau yn eiriau yr oeddwn wedi'u clywed yn y Synagog pan oeddwn yn blentyn.

Dechreuais innau weiddi hefyd.

Roedd y bobl yn torri canghennau o'r coed ac yn eu gosod o flaen y dyn ar gefn yr asyn. Dringais innau goeden hefyd a thorri cangen a'i thaflu o'i flaen.

Fe aeth y dyn ar yr asyn i mewn i'r ddinas, a'r dorf ar ei ôl. Fe es i nôl adref.

Methais gysgu'r noson honno am fod nifer o gwestiynau yn fy mlino: ddylwn i fod wedi gwneud mwy na gweiddi, mwy na thaflu cangen ar y ffordd? Ac yn fwy na hynny, ddylwn i fod wedi troi'n ôl, neu fynd ymlaen gydag ef, y dyn yna ar gefn asyn?

Y Fendith:

'I'n Duw ni y bo'r mawl a'r gogoniant a'r doethineb a'r diolch a'r anrhydedd a'r gallu a'r nerth byth bythoedd.' Amen! (Datguddiad 7:12)

Oedfaon Ffydd, gol. Aled Davies